

Cerddi 'O Ysbaid i Ysbaid' Beth Celyn

O Ysbaid i Ysbaid

Casglodd ei hamheuon
fel haid o fleiddiaid,
ac o ysbaid i ysbaid,
disgleiriodd eu llygaid.

Daliodd ei thir
a chwyrnygant 'nes
ei bod hi'n udo
am yr hyn a gollodd a gerodd,
ac a gariodd dan ei bron,
'nes bron, *bron*, iddi dorri.

Ond creon nhw chwaer ohoni hi,
sylwant ei bod hi am oroesi.

Felly rhedeg, *rhedeg*, oedd rhaid,
ym mhell, bell i ffwrdd,
ei bron groesgoch llawn pryder
wrth fentro dros donnau blin.

Croesodd ffin ei rhyw
yn rhan o'r haid.

Rhaid, *rhaid*, oedd mentro.

Briciau

Nid chwarae bach yw'r creu mawr,
y crychau sy'n casglu a chronni
a chreu tonfeddi sy'n dyrchafu.

Menywod yn creu briciau, waliau,
yn defnyddio nerth eu breichiau - dwylo -
rhag i gymdeithas adfeilio,
gan droi eu wylo mewn i weithredoedd.

Ffatrioedd, tiroedd a moroedd -
y cyfan yn dyst i'w rhyddid caeth,
i'r hyn a roddant yn hael
i'r dynion balch a'u gemau drud.

Trywsus yn troi pennau
cyn troi'n norm,
oherwydd *troi, troi, troi*
sy'n rhaid i gymdeithas ei wneud
yn wyneb y storm,
neu rhydu a thorri a wna'r drefn.

Menywod yn gweu rhythm cynnydd
i mewn i asgwrn cefn cymdeithas,
eu gweithredoedd yn plethu trwy fywydau,
yn troi'n batrymau, cyfarwyddiadau -
na a'n angof -

Achos nid oes modd cywasgu'r fenyw rydd
nôl i mewn i normalrwydd niweidiol sydd,
heb os, nac oni bai,
yn ei rhwystro.

Nid oes modd echdynnu'r gobaith a glyna

i'w bywyd heb fygu ei heinioes,
oherwydd oes, oes, oes,
rhaid hybu'r hyder a'r hyfdra i hedfan
tu hwnt i ffiniau a disgwyliadau.

Yr hyder a'r hyfdra i fynnu pleidleisiau,
yr hyder a'r hyfdra i greu deisebau,
yr hyder a'r hyfdra i ymgyrchu dros heddwch,
dros gydraddoldeb - dros obaith.

Rhaid creu'r briciau,
ac adeiladau'r waliau
a chynnwys pawb,
a pharhau i gynnwys pawb
pan nad ydi cysgod rhyfel
yn herio normalrwydd.

Ond i ddechrau oll rhaid
sicrhau sylfaen cadarn, saff -
neu disgyn fydd y waliau,
a chwalu fydd y briciau,
ac nid oes rhaff i bawb.

Beth Celyn